

24 Chwefror 2014

Croeso Cymru,
Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth,
Llywodraeth Cymru,
Canolfan QED,
Y Brif Rodfa,
Ystad Ddiwydiannol Trefforest,
Rhondda Cynon Taf,
CF37 5YR

E-bost: brian.foster@wales.gsi.gov.uk

Annwyl Syr/Fadam,

Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Strwythurau Ymgysylltu Rhanbarthol a Phartneriaethau yn y Sector Twristiaeth: Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r ohebiaeth hon yn cynnwys ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad ar 'Strwythurau Ymgysylltu Rhanbarthol a Phartneriaethau yn y Sector Twristiaeth'. Mae ein hatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn ffurflen ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru sydd wedi'i hatodi.

Credwn fod cyfleoedd da ar gyfer gwella strwythurau ymgysylltu rhanbarthol sydd eisoes ar waith gan wella twristiaeth yn rhanbarthau Cymru.

Rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu timau ymgysylltu rhanbarthol o fewn Croeso Cymru er mwyn symleiddio strwythurau ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid twristiaeth, canolbwyntio adnoddau'n well, ac integreiddio'r modd y caiff strategaeth a chynllun gweithredu twristiaeth y Llywodraeth eu cyflawni.

Er mwyn datblygu twristiaeth yng Nghymru, bydd hi'n bwysig cynnal arian craidd a chymorth y Llywodraeth, a pharhau i dynnu cyllid allanol i lawr, yn enwedig cyllid o'r UE. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi ymrwmo i gefnogi economi Cymru ac wedi mynegi hynny yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynlluniau Busnes, a gaiff eu cadarnhau cyn hir.

Er mwyn datblygu'r sector twristiaeth a'i gyfraniad i economi Cymru, mae'n rhaid inni weithredu mewn ffyrdd sy'n rheoli ac yn defnyddio adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos â'r Llywodraeth, Croeso Cymru a phartneriaid twristiaeth i sicrhau ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcanion a rannwn.

Byddem yn falch iawn o drafod hyn ymhellach â chi ac awgrymwn eich bod yn cysylltu â Rhian Jardine drwy e-bostio rhian.jardine@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir,

Ceri Davies

Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Cyfoeth Naturiol Cymru

Ffôn: (029) 20466045

Ffôn symudol: 07818008865

E-bost: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk

Strwythurau Ymgysylltu Rhanbarthol a Phartneriaethau yn y Sector Twristiaeth

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Rydym yn awyddus i glywed eich barn chi ar ba fath o strwythur ymgysylltu rhanbarthol a phartneriaethau sydd orau i'r sector twristiaeth yng Nghymru.

Mae eich barn chi'n bwysig. Er mwyn cyflawni'n strategaeth, credwn ei bod yn hanfodol cael y strwythur rhanbarthol mwyaf effeithiol yn ei le i ganiatáu i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â phob un sydd â diddordeb yn y sector twristiaeth ar lefel ranbarthol. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 27 Chwefror 2014.

Er mwyn helpu i gofnodi a dadansoddi'r ymatebion, dylech roi eich sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol. Nid oes raid i chi roi sylwadau ar bob cwestiwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at: visitwales.communications@wales.gsi.gov.uk

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

5 Rhagfyr 2013 – 27 Chwefror 2014

Enw	Jont Bulbeck [am ymholiadau neu eglurhad pellach]
Sefydliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfeiriad	Uned 1, Llys Cantref, Ffordd Aberhonddu, Y Fenni NP7 7AX
Cyfeiriad e-bost	jont.bulbeck@naturalresourceswales.gov.uk

Math (dewiswch un o'r canlynol)

Busnesau

Awdurdodau Lleol/Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall

Cyrff Proffesiynol a Chymdeithasau

Trydydd sector (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cwmnïau cydweithredol, mentrau, crefyddol, sefydliadau dielw)

Cyrff academiaidd

Aelod o'r cyhoedd

Arall (grwpiau eraill nas rhestrwyd uchod)

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Beth yw'r defnydd gorau o adnoddau y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu'r diwydiant twristiaeth ym mhob rhan o Gymru, yn eich barn chi?

Y defnydd gorau y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud o adnoddau cyfyngedig yw sicrhau bod cymorth i dwristiaeth yng Nghymru mor llyfn ac integredig â phosibl, e.e.

- Darparu digon o arian craidd i Croeso Cymru allu marchnata cyrchfannau yng Nghymru yn effeithiol, ynghyd â chynnyrch eiconig Cymru, i'r cynulleidfaoedd targed, yn hytrach na bod Croeso Cymru yn dibynnu ar ddenu arian gan bartneriaid ac o'r tu allan.

- Byddai canoli arian craidd i Croeso Cymru gyflawni'r cylch gwaith o farchnata Cymru a'i chynnyrch eiconig, drwy gymorth dull partneriaeth (yn cynnwys arian cyfatebol) gan Ardaloedd Marchnata Twristiaeth yr Awdurdodau Lleol yn fwy effeithiol na'r trefniadau cyfredol (mwy llyfn, mwy o eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau).

- Parhau'r dull o ddatblygu cynnyrch drwy dynnu arian i lawr o'r UE.

- Cadw cydbwysedd rhwng cyrchfannau a chynnyrch eiconig wrth fynd ati i farchnata twristiaeth Cymru.

- Cydnabod rôl allweddol Awdurdodau Lleol yn y diwydiant twristiaid yn y gorffennol ac annog awdurdodau, drwy ariannu cynlluniau rheoli cyrchfannau, i barhau i gymryd rhan yn y diwydiant twristiaid ar lefel cyrchfannau a bod yn gyfrifol am hwyluso'r dull sector preifat/sector cyhoeddus/trydydd sector ar y lefel hon.

- Ystyried y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau, eu trefnu a'u canolbwyntio ar lefel ranbarthol a lleol, yn bennaf gydag awdurdodau lleol, o ystyried y potensial i newid ffiniau yn sgîl adroddiad Williams yn ddiweddar.

- Gosod strwythurau, systemau, rolau a chyfrifoldebau eglur ar gyfer pob haen sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf a'r cynllun gweithredu cysylltiedig – ni chaiff y rhain sylw yn y dogfennau ar hyn o bryd. Canolbwyntio adnoddau drwy'r dull a bennwyd.

2. Yn eich barn chi, pa un o'r opsiynau canlynol fyddai'r ffordd orau o helpu i gyflawni'r strategaeth?

Gwneud dim – parhau â strwythur presennol ymgysylltu rhanbarthol, ariannu partneriaethau twristiaeth rhanbarthol (PTRh) ar lefel debyg.

Sefydlu tîm ymgysylltu rhanbarthol o fewn Croeso Cymru yn lle'r PTRh.

Caffael gwasanaethau ymgysylltu rhanbarthol drwy dendro cystadleuol, yn seiliedig ar y strwythurau presennol.

Datblygu strwythurau rhanbarthol newydd sy'n cydweddu â mentrau sy'n datblygu fel Dinas-ranbarthau a chaffael gwasanaethau penodedig drwy dendro cystadleuol.

Rhoi'r gorau i ariannu'r PTRh gan barhau i annog datblygiad partneriaethau lleol effeithiol o fewn y sector.

3. Pam mai dyma'r opsiwn gorau yn eich barn chi?

- Byddai unrhyw strwythur yn elwa o osod rhai elfennau yn eu lle: ymgysylltiad â phob sector; ffocws cryf ac arweinyddiaeth; eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol haenau (yn enwedig ar gyfer cyflawni'r strategaeth a'r cynllun gweithredu); ymatebolrwydd a hyblygrwydd o ran y dull o gyflawni; hefyd, ni ddylai unrhyw newidiadau i strwythurau presennol arwain at ddargyfeirio arian, amser staff ac adnoddau gwleidyddol yn sylweddol er mwyn sicrhau'r amcan a geisir

Ein rheswm dros gefnogi'r opsiwn rydym yn ei ffafrio:

- byddai'n cael gwared ar un haen o'r modd y caiff twristiaeth ei rheoli yng Nghymru ac yn arwain at weithio'n fwy effeithlon a mwy o eglurder i'r sector ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth.

- byddai'n galluogi cyrff twristiaeth dan arweiniad y sector preifat fel Twristiaeth Canolbarth Cymru neu Twristiaeth Gogledd Cymru i arwain y gwaith o ddatblygu mentrau perthnasol yn lleol, yn arbennig marchnata, yng nghyd-destun strategaeth a chynllun gweithredu Partneriaeth ar gyfer Twf.

- byddai'n golygu y gallai awdurdodau lleol, ar ôl eu had-drefnu, arwain gwaith twristiaeth sector cyhoeddus ar draws eu hardaloedd newydd, mwy o faint, yn lle'r PTRh.

- byddai'n codi proffil y cynlluniau cyrchfannau newydd gan eu gwneud yn ffocws, gyda'r partneriaethau, ar gyfer cydgysylltu a darparu o fewn y sector twristiaeth ar lefel leol/ranbarthol.

- byddai'n sicrhau bod Croeso Cymru yn meddwl yn rhanbarthol ar y lefel genedlaethol, yn hytrach na datganoli ystyriaethau rhanbarthol i'r PTRh.

Hoffem ychwanegu:

- Wrth ddatblygu'r opsiwn hwn, byddai angen mynd ati'n ofalus i ystyried aelodaeth a lleoliad timau rhanbarthol Croeso Cymru. Yn ein barn ni, byddai mwy o bresenoldeb a ffocws rhanbarthol yn dwyn manteision sylweddol i waith Croeso Cymru.

- Byddai'r dull o weithredu yn galw am eglurder ynglŷn â'r strwythurau, y systemau a'r sefydliadau y byddai timau rhanbarthol Croeso Cymru yn eu defnyddio, ac am ymgysylltu â'r rhanddeiliaid ar lefel y Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau.

- Bydd CNC yn ei chael hi'n anodd ymwneud â'r Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau os ydynt yn seiliedig ar ardaloedd cyfredol yr awdurdodau lleol oherwydd y nifer fawr o bartneriaethau a fyddai'n gysylltiedig â hynny. Yn ein barn ni, byddai'n well clystyru Partneriaethau i ryw raddau.

- Cyn belled ag y bo'n ymarferol, ni fyddem eisiau gweld strwythur sefydliadol diwygiedig, symlach, yn cael ei orchuddio gan strwythurau ychwanegol ar gyfer ardaloedd penodol, ac ailgyflwyno cymhlethdod i drefniadau newydd.

4. Beth ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer helpu twristiaeth ar lefel ranbarthol yn y dyfodol?

Defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yn dod yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu a darparu twristiaeth, yn cynnwys parhau i wneud busnesau twristiaeth yn fwy gwyrdd.

Parhau i dynnu arian allanol i lawr er mwyn cefnogi datblygiad cyrchfannau a chynnyrch yn y rhanbarthau (e.e. y modd y mae CNC yn datblygu cynnyrch twristaidd ar yr ystâd a reolwn)

Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid a chydlynu gweithio mewn partneriaeth sy'n gysylltiedig â hynny

Y systemau a'r strwythurau i ganolbwyntio ar brofiad o ansawdd i ymwelwyr â Chymru ac o fewn Cymru.

Pennu a gosod strwythurau a systemau eglur ar waith ar gyfer gweithio'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol ar gyflawni strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf a'r cynllun gweithredu cysylltiedig (dylai hwn hefyd egluro i rhanddeiliaid sut i gymryd rhan yn y prosesau yn y ffordd orau).

Eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau, a fyddai'n arwain at lai o ddyblygu ymdrech e.e. darparu gwybodaeth o ansawdd uchel a hybu gweithgareddau hamdden a chynnyrch, gan arwain at gyfyngu ar y ffynonellau lluosog o ansawdd amrywiol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Sicrhau bod blaenoriaethau a chymau strategol yn cael eu mynegi a'u cyflawni drwy systemau rhanbarthol a lleol.

Cysylltiadau, cyfathrebiadau, llywodraethu a hydreddedd effeithiol rhwng gwahanol haenau: lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Sefydlu Partneriaethau a Chynlluniau Cyrchfannau yn effeithiol yng ngwaith awdurdodau lleol, neu'n well, yng ngwaith clystyrau o awdurdodau lleol.

Buddsoddi yn y cynnyrch, er enghraifft cyfleoedd hamdden, bwyd a llety o safon, ond hefyd integreiddio â darparu gwasanaethau cysylltiedig o fewn cyrchfannau, megis trafnidiaeth.

Marchnata a hyrwyddo cyrchfannau a chynnyrch yn eglur ac yn syml, e.e. lleihau'r gymysgedd gymhleth gyfredol o farchnata a gwybodaeth ar lefel leol a rhanbarthol am gyrchfannau a chynnyrch twristiaeth – neu o leiaf greu presenoldeb cryfach y bydd mwy o ymwelwyr yn troi ato fel dewis cyntaf.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â sut y byddant yn cyflawni strategaeth a chymau gweithredu Partneriaeth ar gyfer Twf, e.e. mae CNC yn ceisio datblygu cynlluniau profiad ymwelwyr ar gyfer lleoliadau allweddol ar dir a reolwn ac i sicrhau eu bod yn cyfrannu at brofiad o safon uchel yn y safleoedd hynny a chyrchfannau lleol ac felly'n sicrhau buddion i ymwelwyr, cymunedau ac economïau lleol.

5. Sut all strwythur newydd gydredeg yn effeithiol gyda mentrau datblygu economaidd rhanbarthol newydd sy'n codi?

Wrth ddatblygu strwythurau newydd, dylid ystyried gwaith â blaenoriaeth sy'n ymwneud â thwristiaeth. Wedyn, dylid ystyried pwysigrwydd cymharol datblygiadau cysylltiedig o'r fath. Ond fel y nodar ddogfen ymgynghori, ni cheir unrhyw strwythur perffaith a dylid canolbwyntio ar sicrhau bod strwythurau'r ffocws twristaidd yn iawn ac yn gweddu cystal â phosibl i'r ardaloedd dan sylw.

Cysylltu datblygiad, darpariaeth a manteision twristiaeth ranbarthol ag ardaloedd lle y mae'r angen cymdeithasol ac economaidd mwyaf.

Sicrhau bod twristiaeth wedi'i chynnwys mewn strategaethau, cynlluniau a systemau eraill, e.e. Cynlluniau Datblygu Lleol, Strategaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Lleol.